Cymraeg

Cymraeg

Cwrs cyffrous, cyfoes i'ch paratoi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn Byd Gwaith.
Gofynion: TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Cysylltwch â: Miss. N. Jones

Strwythur a Chynnwys y Cwrs

UNED 1: Arholiad Llafar

A. Astudio ffilm Hedd Wyn

B. **Astudio'r ddrama "Siwan" gan Saunders Lewis**

Pwysiad: 15%

UNED 2: Asesiad Mewnol

Llunio portfolio o waith ysgrifenedig

A. Creadigol (2 uned)

Stori Fer/Portread/Dyddiadur/Ymson

Creu sgript allan o stori fer

B. Ffeithiol (1 uned)

Araith/Traethawd

Pwysiad: 10%

UNED 3: Arholiad Ysgrifenedig

A. Defnyddio'r Iaith

Gramadeg, Treigliadau, Adnabod gwallau iaith

B. Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif

Astudiaeth o waith 8 bardd
Datblygu sgiliau gwerthfawrogi'r Cerddi
Dadansoddi a thrafod cynnwys, arddull a themau'r cerdd

Pwysiad: 15%

UNED 4: Arholiad Llafar

A. Y nofel "Martha, Jac a Sianco" gan Caryl Lewis

B. **Trafod themâu, cymeriadau ac arddull**; a chymharu gyda gweithiau eraill

Pwysiad: 20%

UNED 5: Arholiad Ysgrifenedig

A. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol
-Branwen
-Culhwch ac Olwen

B. Yr Hengerdd 6ed Ganrif -9ed Ganrifa'r **Cywyddau** 14eg Ganrif -15ed Ganrif

Pwysiad: 20%

UNED 6: Arholiad Ysgrifenedig

A. **Gwerthfawrogi darn o Ryddiaith neu Farddoniaeth**
Trafod pwnc ac arddull a chroesgyfeirio ag agweddau eraill

B. **Defnyddio'r Gymraeg:**
Ysgrifennu darn creadigol
Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Pwysiad: 20%

UG = 3 uned (astudir ym Ml.12) gydag U2 = 3 uned (astudir ym Ml.13) yn gyfartal i Lefel A llawn

Cymraeg

Cymraeg

Asesiad:

Bl. 12 UG (3 Uned)	Bl. 13 U2 (3 Uned)
Uned 1: Arholiad Llafar mewn grŵp tua ¾ awr ymweliad gan Arholwr Allanol	Uned 4: Arholiad llafar + Asesiad synoptig grŵp tua ¾ awr – ymweliad gan Arholwr Allanol
Uned 2: Gwaith Cwrs	Uned 5: Arholiad Ysgrifenedig 2 awr
Uned 3: Arholiad Ysgrifenedig 2 awr	Uned 6: Arholiad ysgrifenedig + Asesiad synoptig 2 awr

Sgiliau'r pwnc

- Datblygu sgiliau gwerthfawrogi a gwneud defnydd aeddfed o dermau beirniadaeth lenyddol. Aeddfedrwydd / Treiddgarwch / Gwreiddioldeb!
- Defnyddio'r Gymraeg
- Defnydd ymarferol ateb gofynion Byd Gwaith yng Nghymru
- Trafod pynciau llosg / dadleuol
- Y Gymraeg gyfoes
- Astudio ffilm
- Trafod cyfryngau
- Ymroddiad / Hunan gymhelliant
- ymchwil bersonol
- Darllen ehangach
- Astudio Rheolau Iaith – Gloywi Iaith
- Cael blas ar ddarllen – astudio Nofel
- Barddoniaeth
- Gweithio mewn tîm
- Trafodaeth grŵp
- Ysgrifennu'n glir, yn groyw ac yn effeithiol mewn cyweiriau gwahanol
- Datblygu arddull
- Cyfathrebu'n glir yn hyderus ac yn effeithiol ar lafar

Dilyniant 18+

Gellir astudio'r pwnc ymhellach ym myd Addysg Uwch. Mae posibiliadau gyrfa yn cynnwys y canlynol: Llywodraeth Cymru, Swyddi Cyhoeddus o bob math, Addysg, Gweinyddu, Llywodraeth Leol, Y Cyfryngau

Cymraeg